

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

4/3/2014

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alan Jones Evans, Cynghorydd Gwynedd, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1259 Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad Huw Antur
- 1260 Estynnwyd croeso arbennig i'r Arolygydd Mark Armstrong a roddodd gyflwyniad ar droseddau yn yr ardal yn ystod y deg mis diwethaf. Gwnaeth apêl daer i drigolion fod yn ofalus o'u heiddo a chofio cau pob ffenest a chloi drysau, gan gynnwys drysau siediau. Hefyd apeliodd ar drigolion i roi gwybodaeth ar unwaith i'r heddlu os oes amheuaeth o drosedd yn digwydd, neu ffonio 101 neu Crimestoppers os dymunir aros yn ddiennw. Roedd yn falch bod gwybodaeth o sawl camera cylch cyfyng wedi bod o gymorth i'r Heddlu yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu camerâu arbennig ar y priffyrdd sydd yn gymorth i ddal troseddwr sy'n dod mewn i ogledd Cymru. Dywedodd fod yr Heddlu'n cyd-weithio'n agos i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau cartrefi yn yr ardal. Mae'r Arolygydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cynghorwyr Sir lleol a dywedodd fod 4 swyddog a dau PCSO erbyn hyn yn gweithredu o swyddfa'r Bala a bod ceir yr heddlu yn ymweld â'r ardal yn gyson yn ystod y nos. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad ac am waith yr Heddlu, a chyfeiriwyd yn arbennig at y cynllun Tylluan ar gyfer diogelu stoc amaethyddol.
- 1261 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.
- 1262 Derbyniwyd datganiadau buddiant nad oedd yn rhagfarnu ym mater grantiau i fudiadau lleol (eitem 1269 ii) oddi wrth Heledd Jones, Dewi Jones ac Alwyn Roberts.
- 1262 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/2/2014. Nodwyd i Heledd Jones adael y cyfarfod cyn y drafodaeth ar gais cynllunio Cwm Ffynnon.
- 1264 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
- 1265 Derbyniwyd adroddiad am gyfarfod gyda Swyddog Tai Gwynedd a gwybodaeth am y diwrnod agored yn fflatiau Maesypanyd ar ddydd Iau 22/3/14 a drefnir gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Bydd angen trefnu rota o Gynghorwyr a fydd yn gallu bod yn bresennol. Awgrymwyd fod hysbyseb yn cael ei osod yn Y Cyfnod a thaflen gyda lluniau a manylion am rent yn cael ei pharatoi. **Gweithredu: Clerc**
- 1266 Cadarnhawyd trefniadau'r Noson Goffi: Y Cadeirydd i fod wrth y llyw, Y Swyddog ariannol ac Arwel Lloyd Jones i fod wrth y drws. Cytunodd Dewi Jones a Karl Jones i osod y Neuadd.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1267 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans. Soniodd am Gynllun datblygu Gwynedd a Môn a'r angen i ddarparu tai modern i drigolion Gwynedd tra ar yr un pryd warchod Cymreictod yr ardal. Dywedodd fod cynllun gwahanol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri a bod disgwyl prawf o'r angen a lefel uchel o dai fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiad o fewn y Parc.

Diolchwyd iddo am ei waith a hefyd am iddo sicrhau clirio ffosydd yn dilyn sylwadau yn y cyfarfod diwethaf.

1268 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Cytunodd Dewi Jones i brynu cloeon newydd i'r toiledau a chynorthwyo i wagio'r blychau casglu. Cytunodd Bethan Edwards i osod arwyddion bod y blychau'n cael eu gwagio'n ddyddiol.
- ii. Mae Ysgrifennydd Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi arwyddo a dychwelyd Cytundeb i brynu'r toiledau ond ni fu datblygiad pellach.

1269 Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: aelodaeth Un Llais Cymru 2014-15, nwy a chyflogau
- iii. Cytunwyd i alw is-bwyllgor cyllid i drafod cyflogau a materion cyllidol eraill ac i adrodd yn ôl yng Nghyfarfod mis Ebrill. **Gweithredu: Clerc**
- iv. Cytunwyd i gyfrannu tuag at fudiadau ac achosion lleol (gweler y daflen) yn cynnwys Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eisteddfod Gylch Penllyn, Adran Bentref Llanuwchllyn, Clwb Pêl droed Llanuwchllyn, Cymdeithas Amaethyddol Llanuwchllyn, Gofalaeth Bro Llanuwchllyn, Ffederasiwn CFFI Meirionnydd, Pwyllgor Llên y Llannau, Canolfan y Plase, Y Bala, Theatr Bara Caws. Roedd y Cyngor eisoes wedi cyfrannu £700 at y Neuadd Bentref.
- v. Cytunwyd i gyfrannu elw Noson Goffi'r Cyngor yn 2015 at Ambiwlans Awyr Cymru.

1270 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

Cytunwyd i ysgrifennu at Scottish Power am eu hymateb i'r toriad trydan diweddar.
Gweithredu: Clerc

1271 **Partneriaeth Penllyn:** Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo'r Cytundeb Blynnyddol yn awdurdodi Partneriaeth Penllyn i wneud gwaith yn lleol ar ran Cyngor Gwynedd.

1272 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Nodwyd y gwahoddiad i Noson ar gyfer Cyngorau Cymuned 21/5/14 yng Nghoed y Brenin.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

- ii. Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/71/184B am garej/storfa newydd, estyniad i'r cwrtill a chreu mynedfa cerbydau newydd yn Tan y Ffordd LL23 7UH
- iii. Derbyniwyd cyfarwyddyd gan swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri i beidio ar hyn o bryd, ag ystyried cais cynllunio NP5/71/T19M, sef cynllun diwygiedig ar gyfer estyniad i gefn yr eiddo yn cynnwys newidiadau i do a simdde'r estyniad yng Nghoed y Pry LL23 7DE gan fod angen ei gywiro.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am fethiant apêl y perchnogion i gadw'r newidiadau a wnaed i Tŷ'n Ffridd.

2 Gwynedd:

- i. Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiflaniad y bont dros nant Eglwysarn. Bydd Swyddogion yn cynnal cyfarfod lleol i asesu'r sefyllfa.
- ii. Nodwyd yr ymgynghoriad ar flaenoriaethau Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nid oedd sylwadau i'w hanfon ymlaen.
- iii. Derbyniwyd anogaeth y Cyng. Paul Thomas i'r gymuned ddefnyddio'r Ganolfan Hamdden.

3 Heddlu:

Derbyniwyd gwybodaeth am lansiad ymgyrch yn erbyn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, yn cynnwys ffilm gyda chefnogaeth Undeb Rygbi Cymru (wedi ei e-bostio)

4 Llywodraeth Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar **Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 - Gweithredu.**
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2014

Un Llais Cymru:

- i. Cytunwyd i ofyn i'r Cadeirydd ystyried llunio cynigion i'r Gynhadledd Flynyddol, gan awgrymu meysydd megis y gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus, y gwasanaeth ambiwlans ac ymddygiad gwrth cymdeithasol yng nghefn gwlad.
- ii. Nodwyd y gwahoddiad i anfon stori neu newyddion ar gyfer "Y Llais"
- iii. Derbyniwyd Agenda cyfarfod ardal 12/3/14 a nodwyd fod cynghorau Penllyn wedi gwneud cais a sicrhau dyfynbrisiau ers mis Ionawr.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

6 Erail:

- i. Enwebwyd Dewi Jones ac Arwel Jones yn gynrychiolwyr y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y neuadd. Nodwyd y cais i roi rhybudd ymlaen llaw o unrhyw faterion y mae'r Cyngor yn dymuno eu codi.
- ii. Cytunwyd nad oes angen y banc ail-gylchu papur mwyach a bod angen ei symud i wneud mwy o le parcio ar gyfer defnyddwyr y neuadd. **Gweithredu: Clerc**
- iii. Nodwyd na fyddai'r Clerc yn gallu mynychu cyfarfod Mehefin.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/4/14

Amser gorffen: 9.30